



Department for Levelling Up,
Housing & Communities



UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru



Disgrifiad Swydd – Prif Swyddog Prosiect – Trawsnewid Meddyliau Ifanc ar gyfer Yfory

- Swyddi gwag:** Mae swydd lawn amser ar gael i ddarparu prosiectau ym Mlaenau Gwent/ Pen-y-bont ar Ogwr/Conwy/Sir Ddinbych
- Yn atebol i:** Prif Swyddog Gweithredol a thîm rheoli prosiect STEM Cymru
- Tiriogaeth/ Rhanbarth:** Ardaloedd awdurdod lleol Blaenau Gwent/Pen-y-bont ar Ogwr/Conwy/Sir Ddinbych
- Lleoliad:** Y cartref
- Oriau:** Llawn amser 37.5 awr yr wythnos (8.30-4.30 fel arfer, ond bydd peth gwaith min nos yn dibynnu ar amseroedd digwyddiadau a gynhelir ar ôl yr ysgol)
- Dyddiad cychwyn:** Cyn gynted â phosibl
- Hyd y contract:** Contract tymor penodol tan 30 Mehefin 2022 yn gweithio ar y prosiect uchod
- Cyflog:** £32,000 - £35,000 cyfwerth â pro rata (a chostau teithio) yn dibynnu ar brofiad
- Diben y contract:** Gweithio gyda thîm rheoli STEM Cymru, a'r tîm o Ddarparwyr Prosiect sydd newydd eu penodi i greu, datblygu, a darparu'n llwyddiannus y prosiect peilot a amlinellir isod a gyllidir gan Gronfa Adfywio Cymunedol y DU

Disgrifiad o'r prosiect:

Nod y Prosiect yw darparu gweithgareddau rhyngweithiol a phrofiadau i gyflwyno disgyblion ysgol gynradd ac uwchradd i gyffro a rhyfeddodau gweithgynhyrchu a pheirianeg a'u gwneud yn ymwybodol o'r gyrfaedd arloesol a gwerth chweil amrywiol sydd ar gael yn y sectorau Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch, Creadigol a Digidol ac Ynni a'r Amgylchedd yn y rhanbarth. Bydd y gweithgareddau a ddatblygir yn amrywio o brofiadau peirianeg/ gweithgynhyrchu ymarferol i gyfarfod mentoriaid diwydiannol a dysgu am yr hyn y mae gweithgynhyrchwyr Cymru yn ei wneud ac yn ei gynhyrchu.

Bydd Prif Swyddog Prosiect Trawsnewid Meddyliau Ifanc ar gyfer Yfory yn gweithio gyda'r tîm rheoli prosiect i greu gweithgarwch newydd, diddorol a rhyngweithiol sy'n bodloni nodau'r Prosiect a buddsoddiad mewn sgiliau bywyd ar gyfer pobl ifanc.

Bydd y Prif Swyddog Prosiect yn gyfrifol am ddatblygu gweithgarwch a fydd yn cydymffurfio'n agos â'r Cwricwlwm i Gymru 2022 newydd ynghyd â nodi a mapio i unrhyw bolisiau perthnasol eraill fel y Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

Bydd y Prif Swyddog Prosiect yn arwain tîm sydd newydd ei recriwtio o Ddarparwyr Prosiect i gynnwys ysgolion yn y prosesau gweithgarwch a dechrau arni i gasglu'r holl ddata sydd ei angen yn unol â'r cytundeb cyllido. Byddant hefyd yn sefydlu system adborth i lywio datblygiad pellach unrhyw elfennau darparu sy'n ofynnol. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda gwerthuswyr allanol fel rhan o'r gofynion cyllido.



Department for Levelling Up,
Housing & Communities



UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru



Bydd y Prif Swyddog Prosiect yn gweithio gyda'r tîm i greu perthnasedd rhanbarthol i ddiwydiant ar gyfer pob un o'r pedair ardal. Bydd hefyd angen datblygu cysylltiadau gwaith da gydag ysgolion yn eu rhanbarth, ynghyd â'r adrannau Addysg ar gyfer pob awdurdod lleol ac unrhyw randdeiliaid lleol a diwydiant.

Mae'r prosiect yn cael ei gyllido gan Lywodraeth y DU drwy'r Gronfa Adfywio Cymunedol.

Manyleb y Person:

Byddai'r swydd hon yn ddelfrydol ar gyfer ymgeiswyr sy'n chwilio am swydd tymor byr gyda phrofiad o addysgu a/neu'r system addysg.

Byddai'r contract hefyd yn addas ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn cyfnod sabothol neu secondiad.

Cyfrifoldebau ac atebolrwydd allweddol:

- Archwilio nodau'r Prosiect a sefydlu ymarfer cwmpasu'r Prosiect a chreu fframwaith ar gyfer gweithgarwch newydd, gan gadw mewn cysylltiad â Phrif Swyddog Gweithredol STEM Cymru a rheolwr Gweithgareddau STEM Cymru.
- Datblygu briffiau'r prosiect a chynlluniau gwaith o fewn cwmpas y prosiect.
- Ymchwilio i ddogfennau addysg perthnasol a chysoni unrhyw elfennau gweithgarwch y Prosiect yn unol â hynny.
- Sefydlu arolwg i bennu pa adnoddau presennol sydd mewn ysgolion a nodi anghenion athrawon mewn addysg a choladu canfyddiadau'r Darparwyr Prosiect.
- Adolygu gofynion allbwn y Prosiect gyda Phrif Swyddog Gweithredol STEM Cymru a sefydlu system ar gyfer adrodd yn erbyn yr hyn a gyflawnir.
- Sefydlu strategaeth farchnata ac adborth gyda Chynorthwydd Gweinyddu a Marchnata STEM Cymru er mwyn i'r Darparwyr Prosiect allu ei rhoi ar waith yn ystod y Prosiect.
- Arwain y tîm o Ddarparwyr Prosiect a darparu unrhyw hyfforddiant sy'n ofynnol i gyflawni gweithgareddau'r Prosiect.
- Sicrhau bod cerrig milltir y Prosiect yn cael eu gwireddu a chyflawni targedau ar gyfer pob rhanbarth awdurdod lleol.
- Arwain cyfarfodydd grŵp y Prosiect gyda thîm rheoli Prosiect STEM Cymru.
- Rheoli amserlen y prosiect, gan gadw at derfynau amser ac amserlenni unrhyw Ddarparwyr Prosiect.
- Caffael unrhyw ddefnyddiau traul i ddarparu a datblygu adnoddau perthnasol.
- Goruchwilio'r gwaith o recriwtio ysgolion a chwmnïau a chadarnhau sesiynau darparu gydag ysgolion yn yr ardal.
- Rheoli a gweithio gyda'r Darparwyr Prosiect i sicrhau bod ysgolion yn cofrestru a bod cysylltiadau rhanbarthol perthnasol.
- Rheoli pob agwedd ar iechyd a diogelwch y prosiect, gan gynnwys asesiadau risg a chamau gweithredu.
- Cadw cofnodion o'r holl weithgareddau a gwybodaeth am y prosiect, adborth a rheoli gofynion GDPR.
- Darparu'r peilot i ysgolion o fewn yr ardaloedd dynodedig yn llwyddiannus.
- Cynnal a rheoli cysylltiadau ysgolion/diwydiant gydol y cyfnod peilot.
- Sicrhau bod peilot y prosiect yn cael ei ddarparu o fewn yr amserlenni a chyrraedd targed y Dangosydd Perfformiad Allweddol.



Department for Levelling Up,
Housing & Communities



UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru



- Mynychu cyfarfodydd grŵp rheoli Prosiect ac adrodd yn rheolaidd i'r Prif Swyddog Gweithredol a'r tîm rheoli Prosiect.
- Cadw mewn cysylltiad â'r gwerthuswyr Prosiect a darparu unrhyw wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi'r gwerthuso.
- Unrhyw ddyletswyddau fel sy'n ofynnol gan y tîm rheoli Prosiect.

Sgiliau a Phrofiad Hanfodol

- Profiad o weithio ym maes addysg a chyfathrebu yn y maes
- Profiad o weithio mewn ysgolion cynradd a gyda phontio Cynradd/ Uwchradd
- Cysylltiadau presennol mewn diwydiant a/neu addysg
- Profiad rheoli/arwain Prosiect
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol a gallu amlwg i gyfathrebu ag uwch reolwyr ym maes addysg, diwydiant a chyrrff proffesiynol
- Profiad/gallu amlwg i ddatblygu a darparu cyflwyniadau proffesiynol
- Hunangymhelliant a menter
- Ymrwymiad i helpu i dywys pobl ifanc i yrfaedd STEM
- Sgiliau gweinyddu cyffredinol
- Eich cludiant eich hun

Sgiliau a Phrofiad Dymunol

- Gradd berthnasol
- Profiad o allgymorth ysgolion neu ddigwyddiadau ar gyfer pobl ifanc
- Gwybodaeth am y Cwricwlwm i Gymru presennol a'r Cwricwlwm i Gymru 2022 newydd
- Siaradwr Cymraeg